# Datganiad yn dod â'r Parth Gwyliadwriaeth, sydd wedi'i ganoli ar gyfeirnod grid SO1576898850, i ben.

Cadarnhaodd Prif Swyddog Milfeddygol Cymru fod y ffliw adar pathogenig iawn yn bresennol ar safle yng Nghymru yn unol ag erthygl 28(1) o Orchymyn Ffliw Adar a Ffliw sy'n Deillio o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) (Rhif 2) 2006[1] ("y Gorchymyn").

Yn unol â'r erthyglau 28(1), 29(2) a 31(1) o'r Gorchymyn, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru Barth Gwyliadwriaeth â'i ganolbwynt yng nghyfeirnod grid SO1576898850 a ddaeth i rym yn wreiddiol ar 16:10 ar  17 Mai.

Mae o leiaf 30 diwrnod wedi mynd heibio ers cynnal y mesurau glanhau a diheintio rhagarweiniol y cyfeirir atynt yn Rhan 2 o Atodlen 3 i'r Gorchymyn, ym mhob safle heintiedig yn y parth hwnnw.

Yn unol ag Erthyglau 4 a 36(3) o'r Gorchymyn, mae Gweinidogion Cymru drwy hyn yn dod â'r Parth Gwyliadwriaeth hwnnw i ben.

Mae'r holl dermau a ddefnyddir yn y Datganiad hwn wedi'u diffinio yn y Gorchymyn.

Daw'r Datganiad hwn i rym am 16:30 ar 7 Mehefin 2023.

Llofnodwyd: Gavin Watkins, Dirprwy Brif Swyddog Milfeddygo

Dyddiedig: am 16:30 ar 7 Mehefin 2023

O dan awdurdod y Gweinidog Materion Gwledig a'r Gogledd, a'r Trefnydd.

Ceir copïau o'r Datganiad hwn ac o'r Gorchymyn ar wefannau Llywodraeth Cymru a chan Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

[1] Rh.S. 2006/2927 (Cy. 262) fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Ffliw Adar (Cymru) (Diwygio a Dirymu) 2022 OS 2022/280 (Cy. 81)